| | | | |
|---|---|---|---|
| At: | Aelodau'r Cabinet | Dyddiad: | 21 Gorffennaf 2014 |
| | | Rhif Union: | 01824706141 |
| | | ebost: | dcc_admin@denbighshire.gov.uk |

Annwyl Gynghorydd

Fe'ch gwahoddir i fynychu cyfarfod y **CABINET, DYDD MAWRTH, 29 GORFFENNAF 2014** am **10.00 am** yn **CONFERENCE ROOM 1A, COUNTY HALL, RUTHIN**.

Yn gywir iawn

G Williams
Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd

**AGENDA**

**RHAN 1 – GWAHODDIR Y WASG A'R CYHOEDD I FOD YN BRESENNOL YN Y RHAN HON O'R CYFARFOD**

**1 YMDDIHEURIADAU**

**2 DATGAN CYSYLLTIAD**

Dylai'r Aelodau ddatgan unrhyw gysylltiadau personol neu sy'n rhagfarnu mewn unrhyw fusnes a nodwyd i'w ystyried yn y cyfarfod hwn.

**3 MATERION BRYS**

Rhybudd o eitemau y dylid ym marn y Cadeirydd, eu hystyried yn y cyfarfod fel materion brys yn unol ag Adran 100B (4) Deddf Llywodraeth Leol 1972.

**4 COFNODION** (Tudalennau 5 - 12)

Derbyn cofnodion cyfarfod y Cabinet a gynhaliwyd ar 24 Mehefin 2014 (copi'n amgaeedig).

**5 RHAGLEN MODERNEIDDIO ADDYSG** (Tudalennau 13 - 68)

Ystyried adroddiad gan y Cynghorydd Eryl Williams, Aelod Arweiniol Addysg (copi'n amgaeedig) yn darparu diweddariad o Raglen Moderneiddio Addysg ac yn ceisio cymeradwyaeth y Cabinet ar gyfer y prosiectau yn y Rhaglen.

**6 STRATEGAETH LEOL RHEOLI RISG LLIFOGYDD A'R WYBODAETH DDIWEDDARAF AM REOLI RISG LLIFOGYDD YN SIR DDINBYCH** (Tudalennau 69 - 190)

Ystyried adroddiad gan y Cynghorydd David Smith, Aelod Arweiniol y Parth Cyhoeddus (copi'n amgaeedig) yn cyflwyno Strategaeth Leol Rheoli Risg Llifogydd i'w chymeradwyo a darparu diweddariad ynglŷn â Llifogydd Tachwedd 2012 a digwyddiad llifogydd arfordirol Rhagfyr 2013.

**7 ADRODDIAD CYLLID** (Tudalennau 191 - 202)

Ystyried adroddiad gan y Cynghorydd Julian Thompson-Hill, Aelod Arweiniol Cyllid ac Asedau (copi'n amgaeedig) yn manylu ar y sefyllfa ariannol ddiweddaraf a'r cynnydd ar strategaeth y gyllideb a gytunwyd arni.

**8 RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL Y CABINET** (Tudalennau 203 - 208)

Derbyn Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol y Cabinet sydd wedi'i hamgáu, a nodi'r cynnwys.

**RHAN 2 - MATERION CYFRINACHOL**

GWAHARDD Y WASG A'R CYHOEDD

Argymhellir, yn unol ag Adran 100A (4) Deddf Llywodraeth Leol 1972, y dylid gwahardd y Wasg a'r Cyhoedd o'r cyfarfod wrth drafod y materion canlynol oherwydd y tebygolrwydd y caiff gwybodaeth eithriedig, fel y diffinnir ym Mharagraff 14 Rhan 4 o Atodlen 12A y Ddeddf, ei datgelu.

**9 YSGOL NEWYDD Y RHYL - DYFARNU CONTRACTAU** (Tudalennau 209 - 234)

Ystyried adroddiad cyfrinachol gan y Cynghorydd Eryl Williams, Aelod Arweiniol Addysg (copi'n amgaeedig) yn ceisio cymeradwyaeth y cabinet i ddyfarnu contractau'n ymwneud ag adeiladu Ysgol Newydd y Rhyl.

**10 CAM 3 AMDDIFFYN YR ARFORDIR GORLLEWIN Y RHYL - DYFARNU CONTRACT** (Tudalennau 235 - 242)

Ystyried adroddiad cyfrinachol gan y Cynghorydd David Smith, Aelod Arweiniol y Parth Cyhoeddus (copi'n amgaeedig) yn gofyn am gymeradwyaeth y Cabinet i benodi'r contractwr a ffafriwyd ar gyfer gwaith adeiladu Cynllun Amddiffyn yr Arfordir yng Ngorllewin y Rhyl (Cam 3).

**11 CYMERADWYO TENDR AR GYFER ADEILADU MAN GWYRDD GORLLEWIN Y RHYL** (Tudalennau 243 - 282)

Ystyried adroddiad cyfrinachol gan y Cynghorydd Hugh Evans, Arweinydd ac Aelod Arweiniol Datblygu Economaidd (copi'n amgaeedig) yn ceisio cymeradwyaeth y Cabinet i ddyfarnu contract er mwyn adeiladu Datblygiad Man Gwyrdd Gorllewin y Rhyl.

**MEMBERSHIP**

**Y Cynghorwyr**

Hugh Evans
Julian Thompson-Hill
Eryl Williams
Bobby Feeley
Hugh Irving
Huw Jones
Barbara Smith
David Smith

**COPIAU I'R:**

Holl Gynghorwyr er gwybodaeth
Y Wasg a'r Llyfrgelloedd
Cynghorau Tref a Chymuned